

**Model Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer y Dyfodol****Gofynnir i'r Grŵp Llywio gynnig barn ar:**

- Beth sydd ei angen i gefnogi model ar gyfer buddsoddi mewn rhanbarthau?
- Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio?

**Y mater dan sylw**

Yn y cyfarfod ym mis Chwefror, bu'r grŵp yn ystyried y cydbwysedd rhwng buddsoddiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer model Buddsoddi Rhanbarthol newydd i gymryd lle Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru. Roedd y grŵp yn cytuno'n gyffredinol y dylai partneriaethau rhanbarthol fod yn gyfrifol am wneud mwy o benderfyniadau, ond y dylai eu hatebolrwydd gynyddu i gyd-fynd â hyn. Pwysleisiwyd bod eglurder o ran cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau ar bob lefel o weinyddu yn hanfodol hefyd.

Mae'r ymgysylltu hyd yma wedi amlygu awydd i symleiddio trefniadau partneriaethau rhanbarthol a'r angen am gapasiti ychwanegol sy'n gymharol â faint o gyfrifoldeb sydd wedi'i ddirprwyo. Dyma awgrymiadau'r grŵp:

- Angen cymharu dulliau gweithredu mewn mannau eraill, gan gynnwys pennu blaenoriaethau ac amcanion;
- Dylai dirprwyo gynnwys y gallu i ranbarthau wrthod prosiectau, a system sy'n ddigon ymatebol a hyblyg i ymdrin â gweithio trawsffiniol;
- Bydd angen dull mwy cymesur o ymdrin â risg ar draws y system gyfan (gan dderbyn y bydd rhai pethau'n methu, ac ni fydd popeth yn gweithio);
- Dylai blaenoriaethau clir a chyfathrebu effeithiol gan Lywodraeth Cymru rymuso rhanbarthau heb ficoreoli;
- Mae angen strwythur llywodraethu clir er mwyn i bartneriaethau fod yn gwbl glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth a bod y bobl gywir yn y lle cywir;
- Rhaid i fframwaith cenedlaethol osgoi bod yn rhy benodol er mwyn peidio ag amharu ar allu rhanbarthau i ddatrys a diwallu eu problemau/anghenion eu hunain. Mae cydgysylltu rhanbarthol gwell yn wahanol i ddarpariaeth genedlaethol;

Mae'r papurau hyn yn cael eu darparu at ddibenion trafod er mwyn llywio penderfyniadau'r Cabinet ac nid ydynt yn cynrychioli polisi y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru.

- Dylai Llywodraeth Cymru gymharu pwerau rhanbarthau Lloegr gyda'r hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer rhanbarthau Cymru. Byddai cydraddoldeb yn galluogi cydweithredu gwell ar draws ffiniau;
- Dylid cael un system TG genedlaethol ar gyfer dull ariannu yn y dyfodol;

Mae'r papur hwn yn ceisio mynd i'r afael â nifer o'r sylwadau hyn drwy ddarparu disgrifiad byr o dri model ariannu presennol yng Nghymru ac yn Lloegr sy'n cynnwys gwahanol raddau o ddirprwyo i bartneriaethau rhanbarthol. Nid yw hwn yn archwiliad manwl o bob un, ond bwriedir iddo ysgogi trafodaeth am nodweddion y gwahanol fodolau y gellid eu defnyddio, neu ddarparu gwersi am beth i'w osgoi, mewn model buddsoddi rhanbarthol Cymreig.

Wrth gynllunio'r model ariannu newydd, bydd angen i ni fod yn glir ar ba lefelau y mae penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud a phwy sy'n atebol:

- Llywodraeth Cymru
- Corff rhanbarthol priodol
- Partneriaeth leol briodol
- Cyfrifoldeb a rennir gan unrhyw gyfuniad

### **Trafodaeth grŵp**

I hwyluso trafodaethau, mae'r modelau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE yng Nghymru, Bargeinion Dinesig/Twf Cymru a Chronfa Twf Lleol Llywodraeth y DU yn Lloegr wedi'u crynhoi isod. Mae pob disgrifiad wedi'i gyfyngu i un dudalen. Darperir tabl cymharol hefyd i roi cipolwg ar nodweddion allweddol pob un.

Gofynnir i'r grŵp drafod rhinweddau ac anfanteision cymharol pob un, gan nodi'r nodweddion hynny sydd o'r gwerth mwyaf a'r rhai sy'n cyfyngu fwyaf ar fuddsoddi effeithiol yn y rhanbarthau.

Mae'r papurau hyn yn cael eu darparu at ddibenion trafod er mwyn llywio penderfyniadau'r Cabinet ac nid ydynt yn cynrychioli polisi y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru.

## **(1) Bargeinion Dinesig/Twf yng Nghymru**

Mae'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau/dyrannu cyllidebau wedi eu dirprwyo i'r Corff Atebol ym mhob rhanbarth (yr awdurdod lleol unigol sy'n gyfrifol am dderbyn arian). Cydbwyllgor yw'r prif fforwm ar gyfer gwneud penderfyniadau, ond y Corff Atebol sy'n gyfrifol am lif arian o fewn y rhanbarth. Er bod cydbwyllgor wrth galon pob bargaen, mae'r strwythurau llywodraethu wedi'u teulwra i adlewyrchu anghenion rhanbarthau unigol.

### **Strategaeth/Rhaglennu:**

Cytundeb Penawdau'r Telerau a wnaed rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'r awdurdodau lleol oedd yn cymryd rhan. Mae'r ddogfen Penawdau'r Telerau yn cyfeirio at gyfres ehangach o ddogfennau rheoli a llywodraethu ac yn nodi'r cyfeiriad strategol, y themâu buddsoddi a'r mecanwaith ar gyfer rhyddhau cyllid. Gall y rhain fod yn eang eu natur, ond mae angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gymeradwyo'r newidiadau.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi sefydlu Bwrdd Gweithredu Bargeinion Dinesig/Twf ar y cyd rhwng y ddwy lywodraeth i oruchwylio'r rhaglen o fargeinion sy'n bodoli ar hyn o bryd a'r rhai fydd yn bodoli yn y dyfodol. Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi rôl a chylch gwaith y Bwrdd, gyda threfniadau safonol a phenodol ar gyfer pob cytundeb.

Bydd llythyr dyfarnu grant yn cael ei lunio rhwng Llywodraeth Cymru a'r Corff Atebol, i nodi telerau ac amodau corfforaethol ac amcanion lefel uchel y fargen ddinesig. Mae'r llythyr yn cyfeirio at delerau cyflawn y fargen ac mae rhyddhau arian yn y dyfodol yn amodol ar yr holl delerau ac amodau a phrosesau monitro a gwerthuso, sy'n benodol i bob bargaen. Mae angen adrodd ar y cyd i Lywodraethau Cymru a'r DU.

### **Trefniadau gweithredu/ Llywodraethu**

Yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan sy'n gyfrifol am yr holl strwythurau a'r cytundebau llywodraethu, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Cytundeb Cydbwyllgor yw'r ddogfen gyfreithiol allweddol sy'n pennu prif strwythur llywodraethu'r cydbwyllgor (awdurdodau lleol) ac sy'n nodi sut mae'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn bwriadu gweithio gyda'i gilydd. Hefyd, mae gan bob bargaen bwyllgorau eraill fel rheol, megis bwrdd cynghori sy'n dod yn bennaf o'r sector preifat, bwrdd rhaglen, bwrdd prosiect a phwyllgor craffu rhanbarthol.

O dan bob bargaen mae proses ar gyfer asesu/cymeradwyo prosiectau/cynlluniau buddsoddi. Dylid dilyn Model Busnes Pum Achos Trysorlys EM/Llywodraeth Cymru a dylid cael cymeradwyaeth drwy'r pwyllgor, y Cabinet a/neu'r Bwrdd Rhaglen perthnasol. Mewn rhai achosion mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gytuno ar achosion busnes hefyd.

Caiff prosiectau eu dynodi i Awdurdod Arweiniol sy'n gyfrifol am sicrhau bod holl amodau'r prosiect yn cael eu bodloni a bod y Corff Atebol yn talu'r arian allan mewn cyfrannau blynyddol. Awdurdodau lleol sydd fel arfer yn ysgwyddo'r risgiau ariannol.

Mae'r papurau hyn yn cael eu darparu at ddibenion trafod er mwyn llywio penderfyniadau'r Cabinet ac nid ydynt yn cynrychioli polisi y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru.

## **(2) Cronfa Twf Lleol Llywodraeth y DU**

Gwneir penderfyniadau gan Bartneriaethau Menter Lleol fel arfer, ond mae'r gyllideb wedi ei dirprwyo i'r Corff Atebol (yr awdurdod lleol arweiniol sy'n gyfrifol am dderbyn arian).

### **Strategaeth/Rhaglenni**

Mae'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn darparu'r Gronfa Twf Lleol i ranbarthau ledled Lloegr ar sail cytundeb cystadleuol fesul bargaen. Nod strategol eang y Gronfa Twf Lleol yw cefnogi twf economaidd lleol.

Caiff yr arian ei ddyrannu trwy gyfres o fargeinion twf gyda phartneriaethau menter lleol. Mae'r rhain yn digwydd dros gyfnodau o amser (e.e. mae Cernyw ac Ynysoedd Scilly wedi cael bargeinion twf ym mis Gorffennaf 2014, mis Ionawr 2015 a mis Tachwedd 2016). Gwariant cyfalaf yw'r rhain (sy'n adlewyrchu blaenoriaethau adrannol y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol). Mae'r rhain yn gysylltiedig â chynlluniau economaidd strategol (bydd cronfeydd yn y dyfodol yn gysylltiedig â Strategaethau Diwydiannol Lleol gyda nod mwy penodol o fynd i'r afael â gwendidau cynhyrchiant).

Mae cytundeb cyllid grant gyda'r corff cyfrifol yn rhoi manylion y dyraniad cyllid a'r telerau ac amodau sydd angen eu bodloni. Nid yw'r cytundeb cyllid grant yn gosod amodau manwl yn ymwneud â gwariant a chyflawni. Mae'n rhaid i'r Bartneriaeth Fenter Leol gytuno ar benderfyniadau ynghylch gwario'r grant ac i'r awdurdod lleol atebol eu cymeradwyo yn unol â'r fframwaith sicrwydd lleol y cytunwyd arno.

### **Gweithredu/Llywodraethu**

Partneriaethau cyhoeddus-preifat sy'n cael eu harwain gan fusnes yw Partneriaethau Menter Lleol, ac mae ganddynt gyfrifoldebau cynyddol dros gynllunio economaidd a buddsoddi ledled Lloegr. Mae'r math o endid cyfreithiol y gall y partneriaethau hyn ei fabwysiadu yn amrywio (er bod gofyn yn awr iddynt symud i un model cwmni preifat corfforedig). Fodd bynnag, telir dyraniadau'r Gronfa Twf Lleol i Gorff Atebol ar wahân (awdurdod lleol arweiniol unigol). Mae trefniadau gwahanol yn bodoli mewn ardaloedd gydag awdurdodau cyfun (e.e. Manceinion Fwyaf) lle mae Cyd-bwyllgor Statudol o Awdurdodau Lleol yn llywodraethu, a Phartneriaethau Menter Lleol yn cyflawni swyddogaethau cynghori (h.y. yn fwy tebyg i Fargeinion Dinesig yng Nghymru, er bod y Cyd-bwyllgor yn endid cyfreithiol).

Mae fframwaith sicrwydd cenedlaethol ar gyfer y DU gyfan yn nodi trefniadau llywodraethu, polisiau a phrotocolau, a'r berthynas sy'n ofynnol rhwng y Bartneriaeth a'r Corff Atebol, gan gynnwys rheoli cyllid. Mae Fframwaith Sicrwydd Lleol yn egluro sut bydd y bartneriaeth yn nodi, arfarnu (gan ddefnyddio'r Model Pum Achos), monitro a gwerthuso cynlluniau i sicrhau gwerth am arian. Mae Cynlluniau Economaidd Strategol yn darparu fframwaith ar gyfer targedu buddsoddiadau ar sail blaenoriaethau lleol.

Mae adolygiadau dros nifer o flynyddoedd wedi arwain at newid i fodel mwy safonol, cyfres fwy canolog o ganllawiau a gofynion, a mwy o drefniadau goruchwyllo a monitro gan Lywodraeth y DU. Mae mwy a mwy o bwyslais yn cael ei roi hefyd ar fonitro a gwerthuso er mwyn diffinio canlyniadau a mesur cynnydd.

Mae'r papurau hyn yn cael eu darparu at ddibenion trafod er mwyn llywio penderfyniadau'r Cabinet ac nid ydynt yn cynrychioli polisi y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru.

### **(3) Model Cyfredol Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru**

Llywodraeth Cymru sy'n meddu ar yr holl gyfrifoldebau gwneud penderfyniadau/dyrannu cyllidebau, fel y sefydliad sy'n rhoi grantiau. Mae swyddogaethau'n cael eu gwahanu'n weithredol o fewn 'Awdurdod Rheoli'.

#### **Strategaeth/Rhaglenni:**

Gweinyddir y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Caiff rhaglenni buddsoddi eang eu datblygu o fewn partneriaethau ledled Cymru cyn cael eu trafod/cytuno gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae dogfennau'r rhaglenni'n ffurfio contract gyda'r Gymuned Ewropeaidd, gan gynnwys cyfres o amcanion penodol, targedau ariannol a pherfformiad, a dulliau cydgyssylltu. Mae'r strategaeth yn golygu bod modd canolbwyntio buddsoddiad ar nifer bach o feysydd thematig.

Mae cyllidebau/rhaglenni ariannu gwahanol wedi eu sefydlu i gyflawni yn erbyn canlyniadau sydd wedi eu diffinio, gyda rheolau pwrpasol a meini prawf cymhwysedd ar waith. Rhaglenni sy'n ariannu dros sawl blwyddyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar gynnydd rhaglenni i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ac i'r Gymuned Ewropeaidd. Ceir prosesau adolygu blynyddol, gyda chyllid yn cael ei ryddhau ar gerrig milltir penodol, yn gysylltiedig â pherfformiad mewn termau ariannol ac allbwn. Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn bodoli o fewn rhaglenni i amrywio strategaeth, ond mae newidiadau sylweddol neu weithgarwch newydd yn gofyn am gytundeb Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru, rhanddeiliaid Cymreig, a'r Gymuned Ewropeaidd.

Y Gymuned Ewropeaidd yn talu'r cyllid i Lywodraeth Cymru ar ôl gwirio gwariant. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio sail debyg ar gyfer talu grantiau i brosiectau.

#### **Gweithredu/Llywodraethu**

Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli prosesau grantiau o'r dechrau i'r diwedd, gan gynnwys ymgeisio, canllawiau, arfarnu, dyfarnu, monitro, talu a gwerthuso.

Mae cyrff allanol yn gwneud cais am gyllid drwy broses ymgeisio ffurfiol ac agored, gyda meini prawf cymhwysedd sy'n hysbys ar adeg ymgeisio (ar ôl i'r Pwyllgor Materion Rhaglenni gytuno arnynt). Caiff ceisiadau eu harfarnu yn unol â meini prawf y rhaglen. Mae dyletswyddau gwahanol swyddogion wedi eu diffinio'n glir gyda rhai yn argymhell ac eraill yn cymeradwyo'r cynnig i ddyfarnu/gwrthod cyllid. Mae'r cais yn cynnwys asesiadau graddol, sydd wedi eu datblygu yn unol â'r model busnes pum achos ond wedi'u haddasu i ymgorffori gofynion deddfwriaethol ychwanegol.

Ceir cytundeb cyfreithiol ffurfiol (llythyr dyfarnu grant) yn nodi lefel y cymorth a holl delerau ac amodau'r grant. Nid oes unrhyw hawl annibynnol i newid y telerau a'r amodau a ddisgwylir ac a nodir yn y llythyr dyfarnu heb gytundeb Llywodraeth Cymru.

Mae fframwaith sicrwydd yn ei le ac wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod archwilio a'r Gymuned Ewropeaidd cyn i'r cyllid ddod yn gymwys. Mae rheolau'r Gymuned Ewropeaidd yn rheoli gofynion sicrwydd, wedi'u sefydlu mewn dros 20 mlynedd o ddarparu cyllid rhanbarthol. Mae pob rhaglen a phrosiect yn gorfod cael eu harchwilio'n fewnol ac allanol.

Mae'r papurau hyn yn cael eu darparu at ddibenion trafod er mwyn llywio penderfyniadau'r Cabinet ac nid ydynt yn cynrychioli polisi y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru.

## Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

### Tabl cymharu-rhai o'r prif wahaniaethau

	<b>Bargeinion Dinesig/Twf yng Nghymru</b>	<b>Cronfa Twf Lleol – y DU</b>	<b>Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru</b>
<b><i>Prosesau/gweithgareddau Strategaeth y Rhaglen</i></b>			
<i>Hanes</i>	3 blynedd ers y cytundeb Penawdau'r Telerau cyntaf. Problemau o ran capasiti a phroblemau cychwynnol wedi at arafu'r broses o'u rhoi ar waith.	9 mlynedd ers sefydlu Partneriaethau Menter Lleol. 5 mlynedd o gyllid y Gronfa Twf Lleol. Mae adolygiadau wedi mynegi pryderon yn ymwneud â llywodraethu a chapasiti, ac maent yn mynd i'r afael â'r rhain	20 mlynedd o ddarparu cyllid, gyda chapasiti sylweddol wedi'i ddatblygu'n raddol i ymdrin â chymhlethdod a chanfyddiadau archwilio.
<i>Cwmpas</i>	Twf economaidd a swyddi. Cyfalaf yn bennaf, ond peth refeniw (yn ddibynnol ar y fargen).	Ffocws ar dwf economaidd lleol. Cyfalaf/seilwaith yn bennaf (sy'n adlewyrchu blaenoriaethau adrannol y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol).	Cylch gwaith eang ar gyfer datblygu economaidd a sgiliau, cynhwysiant cymdeithasol, canlyniadau amgylcheddol. Cyfalaf a refeniw integredig.
<i>Dyrannu cyllid a chanlyniadau</i>	Disgwyllir canlyniadau cyffredinol a nifer cyfyngedig o ganlyniadau ar gyfer y rhaglen gyfan (cynnydd mewn gwerth ychwanegol gros (GYG) a'r nifer gros o swyddi a grëwyd yn bennaf)	Disgwyllir canlyniadau cyffredinol a'r nifer cyfyngedig o ganlyniadau ar gyfer y rhaglen gyfan, wedi'u teilwra i'r fargen benodol (e.e. GYG, tai a adeiladwyd, amseroedd teithio)	Cyllid wedi'i drefnu yn ôl rhaglenni a blaenoriaethau, gyda dyraniadau ar gyfer pob un i sicrhau canlyniadau penodol wedi'u meintoli (e.e. cynnydd mewn incwm ymchwil cystadleuol).
<i>Cytundebau ariannu</i>	Cytundebau grant unigol (a chytundeb Penawdau'r Telerau) ar waith rhwng Llywodraeth Cymru a'r Corff Atebol ar gyfer pob rhanbarth Bargaen Ddinesig/Bargaen Twf.	Cytundebau grant unigol wedi'u sefydlu rhwng Llywodraeth y DU a'r Corff Atebol ar gyfer pob Partneriaeth Menter Leol	Cytundeb yn ei le rhwng y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru ('Rhaglen Weithredol'), sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd.
<i>Contractau – lefel y rhaglen</i>	Mae cytundebau grant yn amlinellu telerau ac amodau corfforaethol ond dim ond ychydig o allbynnau penodol heblaw am ganlyniadau lefel uchel y rhaglen.	Mae cytundebau grant yn amlinellu telerau ac amodau corfforaethol heblaw am ganlyniadau lefel uchel y rhaglen. Adroddiadau ac adolygiadau cynyddol reolaidd gyda Llywodraeth y DU i fonitro ac asesu cynnydd/perfformiad.	Mae cytundeb ariannu gyda'r Gymuned Ewropeaidd yn cynnwys targedau a cherrig milltir, gyda deddfwriaeth sylfaenol yn pennu gwobrau/cosbau am gyflawni/methu'r targedau ariannol ac allbwn.

Mae'r papurau hyn yn cael eu darparu at ddibenion trafod er mwyn llywio penderfyniadau'r Cabinet ac nid ydynt yn cynrychioli polisi y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru.

## Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

<i>Taliadau - lefel y rhaglen</i>	Nid yw'r proffil talu blynyddol yn gysylltiedig â chyflawni gwariant - ond mae wedi'i deilwra ar gyfer pob bagen.	Nid yw'r proffil talu blynyddol yn gysylltiedig â chyflawni gwariant – egwyddor talu ymlaen llaw	Proffil taliadau sy'n gysylltiedig â chyflawni allbynnau a gwariant – egwyddor talu wedyn
<b><i>Rheoli prosiectau a llywodraethu</i></b>			
<i>Arfarnu prosiectau</i>	Gweithgarwch arfarnu o fewn rhanbarthau'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf. Penderfyniadau gan y Cyd-bwyllgor a'r Corff Atebol. Ni ddiffinnir meini prawf cymhwysedd gwahanol. Arfarnu trwy'r Model Pum Achos	Gweithgaredd arfarnu o fewn y Partneriaethau Menter Lleol. Penderfyniad ar Bartneriaeth yn amodol ar gytundeb y Corff Atebol. Ni ddiffinnir meini prawf cymhwysedd gwahanol. Arfarnu trwy'r Model Pum Achos	Gwaith arfarnu a phenderfyniadau o fewn WEFO/LIC. Meini prawf cymhwysedd a phrosesau arfarnu rhagnodol (wedi'u cytuno gyda'r pwyllgor rhanddeiliaid). Arfarnu ar sail y Model Pum Achos wedi'i addasu (ychwanegiadau i adlewyrchu gofynion yr UE)
<i>Monitro prosiectau</i>	Mae prosesau monitro, penderfyniadau ynghylch taliadau a chyflenwi gweithgareddau a ariennir yn rhan o gyfrifoldebau Rhanbarthau'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf	Mae prosesau monitro, penderfyniadau ynghylch taliadau a chyflenwi gweithgareddau a ariennir yn rhan o gyfrifoldeb y Partneriaethau Menter Lleol	Mae prosesau monitro, penderfyniadau ynghylch taliadau a chyflenwi gweithgareddau a ariennir yn rhan o gyfrifoldebau WEFO/LIC
<i>Llywodraethu, archwilio a sicrwydd prosiectau</i>	Mae prosesau llywodraethu, archwilio a sicrwydd/rheoli yn rhan o gyfrifoldebau Rhanbarthau'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf, mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru/Llywodraeth y DU	Mae prosesau llywodraethu, archwilio a sicrwydd/rheoli yn rhan o gyfrifoldebau'r Partneriaethau Menter Lleol, mewn cytundeb â Llywodraeth y DU	Mae prosesau llywodraethu, archwilio a sicrwydd/rheoli yn rhan o gyfrifoldeb WEFO/LIC, yn unol â'r fframwaith sicrwydd y cytunwyd arno gyda'r Gymuned Ewropeaidd
<b><i>Cryfderau/gwendidau/nodweddion posibl</i></b>			
<i>Hanes/profiad</i>	Mae Rhanbarthau'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf wedi eu ffurfio'n ddiweddar ac mae ganddynt lai o brofiad o ddarparu rhaglenni/prosesau cyllid grant	Mae rôl estynedig y Partneriaethau Menter Lleol yn golygu bod angen cynyddu profiad o ddarparu rhaglenni/prosesau ariannu grant, gyda goruchwyliaeth a chymorth mwy uniongyrchol gan Lywodraeth y DU.	Mae gan WEFO/LIC lawer o brofiad o weinyddu rhaglenni a phrosesau ariannu grantiau ar draws rhychwant eang o weithgarwch a mathau o gyllid.

Mae'r papurau hyn yn cael eu darparu at ddibenion trafod er mwyn llywio penderfyniadau'r Cabinet ac nid ydynt yn cynrychioli polisi y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru.

## Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

<i>Capasiti</i>	Bydd y gwaith o weinyddu'r grant hwn yn golygu cyfrifoldeb newydd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wella capasiti a sgiliau ar draws y camau prosesu grantiau gofynnol	Gyda rôl a chyfrifoldebau'r Partneriaethau Menter Lleol yn tyfu, mae datblygu capasiti a sgiliau yn parhau i fod yn fater sydd angen mynd i'r afael ag ef mewn rhai ardaloedd	Mae gweinyddu cyllid grant wedi bod yn weithgaredd craidd am flynyddoedd lawer. Mae capasiti a sgiliau yn bodoli'n barod drwy'r sefydliad
<i>Perthnasedd lleol</i>	Penderfyniadau ariannu ar lefel leol - mwy o hyder y bydd gweithgareddau a ariennir yn diwallu cyfleoedd/anghenion lleol	Penderfyniadau ariannu ar lefel leol - mwy o hyder y bydd gweithgareddau a ariennir yn diwallu cyfleoedd/anghenion lleol	Gall penderfyniadau ariannu canolog arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth o faterion sensitif/anghenion lleol
<i>Rheoli</i>	Rheolaethau archwilio mewnol ALLau a chraffu allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.	Rheolaethau archwilio mewnol ALLau a chraffu allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cytundeb fframwaith sicrwydd yn amod ariannu	Rheolaethau archwilio mewnol a chraffu allanol ar benderfyniadau cyllid grant. Fframwaith sicrwydd gyda'r Gymuned Ewropeaidd yn amod ariannu

Mae'r papurau hyn yn cael eu darparu at ddibenion trafod er mwyn llywio penderfyniadau'r Cabinet ac nid ydynt yn cynrychioli polisi y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru.